University of South Wales Prifysgol De Cymru

Canllaw i ddefnyddio FINDit

Gwasanaethau Llyfrgell

Haf, 2018

0

Cynnwys

1	Be	th yw FINDit?	. 1
2	Ch	wilio sylfaenol	1
	2.1	Gwneud mwy gyda'r panel chwilio	. 2
	2.1.1	Chwilio am gymal	2
	2.1.2	Chwilio am air neu ymadrodd penodol	3
	2.1.3	Eithrio geiriau neu ymadroddion	3
	2.1.4	Chwilio gyda nodau chwilio	3
	2.1.5	Grwpio termau mewn ymholiad	4
	2.1.6	Dewis eich cwmpas chwilio	5
	2.1.7	Defnyddio'r cwmpas chwilio Erthyglau	5
	2.2	Cyfyngiadau chwilio	6
3	Ch	wiliadau pellach	6
4	Ро	ri	7
5	Eid	ch gofod chi yn FINDit	8
	5.1	Pam mewngofnodi?	8
	5.2	Pam allgofnodi?	9
	5.3	Fy Nghyfrif	9
	5.3.1	Gosodiadau personol	9
6	De	efnyddio Fy Ffefrynnau	9
	6.1	Cadw a rheoli cofnodion	10
	6.1.1	Cadw cofnod	10
	6.1.2	Dileu cofnod	10
	6.1.3	Labelu cofnod	11
	6.1.4	Dileu a labeli	12
	6.1.5	Gweld cofnodion grŵp	13
	6.1.6	Gweld cofnod wedi ei gadw	14
	6.1.7	Trefnu rhestr cofnodion wedi eu cadw	15

6.2 Cadw a rheoli chwiliadau16
6.2.1 Cadw ymholiad o'r rhestr canlyniadau16
6.2.2 Cadw ymholiad o Fy Ffefrynnau17
6.2.3 Dileu cofnod wedi ei gadw17
6.2.4 Dileu grŵp o ymholiadau wedi eu cadw18
6.3 Cadw a rheoli hysbysiadau
6.3.1 Gosod hysbysiad19
6.3.2 Clirio hysbysiad
6.4 Creu ffrwd RSS 20
7 Defnyddio canlyniadau cryno 21
7.1 Personoleiddio canlyniadau 22
7.1.1 Gosod dewisiadau canlyniadau wedi eu personoleiddio
7.2 Hidlo canlyniadau
7.2.1 Cynnwys ac eithrio ffasedau lluosog
7.2.2 Ychwanegu ffasedau parhaus
8 Chwilio Cyfnodolion 27
9 Defnyddio'r dangosiad llawn 27
10 Mynegai

1 Beth yw FINDit?

Gwasanaeth chwilio llyfrgell Prifysgol De Cymru yw FINDit.

Mae'n darparu dull syml, un-cam, i chwilio am lyfrau, elyfrau, erthyglau, DVDs a llawer mwy. Mae'n galluogi pob myfyriwr ac aelod staff i reoli eu cyfrif llyfrgell ar-lein, ac yn cynnig ystod o nodweddion i bersonoleiddio eich cyfrif er mwyn cadw hoff eitemau neu ymholiadau chwilio.

Mae'r fersiwn newydd, ar gael o Haf 2018, yn cynnwys nifer o welliannau, yn cynnwys:

- Rhyngwyneb gwell ar gyfer teclynnau symudol
- Manylion llawn eitem ar ddalen unigol
- Dolenni i gyhoeddiadau cysylltiedig
- · Argymell adnoddau drwy ddolennu at ganllawiau llyfrgell perthnasol, llyfrgellwyr a mwy

CLASSIC NEW SEARCH PIND FIND HARD Interface New Search Database Journal Libra Network	INF KNY COLLECTIONS *** EST	Sign in Discussion
Search		
What is FINDIC RNR is the University of South Wales library search service. It provides simple, one-stop searching for books, e-books, articles, DVDs and more, and allowsyous to manage your library account. What can I discover? RNR is the University of South Wales library search service. What can I discover? Interest and allowsyous to manage your library account. What can I discover? Interest and allowsyous to manage your library account. Ware can I discover? Interest and allowsyous to manage your library account. Ware can I discover? Interest and allowsyous to manage your library account. Ware can I discover? Interest and allowsyous to manage your library account. Ware provide and your lobrary account and your lobrary account. Ware provide and your lobrary account account account account account accoun	Sectialised subject guides for help Secialised started at the library: a guide Secialised started started Secialised started Secialised started Secialised started Secialised started	Ask Library Staff
	CALLED WE KALLED MARKED MARKED MARKED Search What is FINDIt? Findits is the University of South Wales Ibrary search service. It provides simple, on-stop searching for bocks, e-bocks, atticles, DVDs and more, and allows you to manage your Ibrary account. What can I discover? FinDit offers a number of search options: Userything search for bocks, journat, OVDs and more held at USW addents & staff Userything search for bocks, journat, OVDs and more held at USW addents & staff Why Sign in? search for adjust, theses, books and more ground engens and roce. Why Sign in? search adjust, theses, books and more for excerts and adjust is and organize items on theid at USW information. Why Sign in? space and organize items on theid at USW information. Why Sign in? space and organize items on theid at USW information. Work with the adjust you to make the most what FINDIE is not for. Space and organize items on theid at USW information. Work with the adjust you to make the most what FINDIE is not for. Space and organize items on theid at USW information. We will your findit search exciting the Search fields of your choice we all your findits acarbies you to make the most what FINDIE is across and organize items on theid at USW information. We will your findit search excits, as some databases only show instruction. We will your findits acarbies you to make the souto choice we all your findits acarbies you to make the sout	<page-header> NAME <th< th=""></th<></page-header>

Ffigur 1 Rhyngwyneb newydd FINDit

2 Chwilio sylfaenol

Mae defnyddio FINDit i chwilio yn hawdd iawn. Teipiwch un neu ddau o eiriau rydych chi'n chwilio amdanyn nhw a chliciwch ar y botwm Chwilio. Os byddwch yn rhoi nifer o eiriau, bydd FIDNit yn dangos canlyniadau'n cynnwys y termau a nodwyd i gyd.

Wedi i chi ymgyfarwyddo gyda dull chwilio sylfaenol FINDit, efallai y byddwch am roi cynnig ar wneud mwy gyda'r panel Chwilio neu ddefnyddio'r opsiwn Chwilio Pellach. Mae'r ddau yn cynnig nodweddion amrywiol i wneud eich chwiliadau'n fwy manwl a'ch galluogi i gael canlyniadau mwy defnyddiol.

Sylwer

Gallwch chwilio am deitlau drwy ddefnyddio rhifau ISBN ac ISSN gyda chyplysnodau neu hebddynt. Os nad ydych chi'n gweld y canlyniadau disgwyliedig gyda chyplysnodau, rhowch gynnig arall arni heb y cyplysnodau.

2.1 Gwneud mwy gyda'r panel chwilio

Mae modd gwneud mwy na chwiliad syml gyda'r panel Chwilio, drwy osod y geiriau gweithredol canlynol rhwng geiriau neu ymadroddion : **A, NEU** neu **DIM**. Mae chwiliadau gyda gweithredwyr lluosog yn cael eu prosesu yn ôl y drefn ganlynol, o'r chwith i'r dde:

- () maer cromfachau yn eich galluogi i grwpio termau rydych chi'n chwilio amdanynt a newid y drefn ddewisol.
- A a DIM defnyddir blaenoriaeth chwith-i'r-dde mewn achosion o weithredwyr lluosog.
- NEU defnyddir blaenoriaeth chwith-i'r-dde mewn achosion o weithredwyr lluosog.

Er bod gweithredwyr yn rhoi mwy o reolaeth dros y chwiliad, nid yw'r llinyn chwilio llawn bellach yn cael ei drin fel ymadrodd ac ni fydd gwelliannau chwilio (megis ffurfdroi ymadrodd ar sail ystadegau cydberthynas) yn cael eu cymhwyso at y chwiliad. Er enghraifft, mae'r ymholiadau canlynol yn cael eu trin yn wahanol er eu bod yn ymddangos yn debyg:

- **cyfathrebu gwenyn** mae FINDit yn ymdrin â'r ymholiad fel ymadrodd ac yn dangos canlyniadau lle mae'r geiriau yn agos at ei gilydd.
- gwenyn A cyfathrebu mae FINDit yn ymdrin â gwenyn a cyfathrebu fel cymalau ar wahân ac yn dangos canlyniadau lle na fydd yr ymadroddion mor agos at ei gilydd.

Sylwer

Mae FINDit yn rhagdybio eich bod yn chwilio am y geiriau i gyd onid nodwch **NEU** neu **DIM** rhwng geiriau ac ymadroddion.

Gydag ieithoedd sy'n cael eu hysgrifennu o'r dde i'r chwith (megis Hebraeg), y flaenoriaeth yw y dde-i'r-chwith.

Nid oes ots a yw llythrennau'n rhai bach neu'n brif lythrennau.

2.1.1 Chwilio am ymadrodd

I chwilio am ymadrodd penodol, teipiwch ddyfynodau o gwmpas y cymal. Gallwch gyfuno geiriau ac ymadroddion yn eich chwiliad.

Sylwer

Os na fyddwch yn rhoi dyfynodau o gylch yr ymadrodd, bydd y system yn dod o hyd i eitemau sy'n cynnwys geiriau unigol yr ymadrodd, boed y geiriau nesaf at ei gilydd fel y nodwyd yn y chwiliad ai peidio.

Os defnyddir coma i wahanu geiriau mewn rhestr, rhaid cael gofod wedi'r coma. Os na wneir hyn, bydd y system yn ystyried y coma'n rhan o'r gair ac yn rhoi llai o ganlyniadau na'r disgwyl.

Er enghraifft, i chwilio am cynhesu byd-eang fel un ymadrodd, teipiwch y canlynol yn y blwch chwilio:



Ffigur 2. Chwiliad syml am ymadrodd

2.1.2 Chwilio am air neu ymadrodd penodol

Gallwch chwilio am eitemau sy'n cynnwys o leiaf un o'r geiriau neu ymadroddion rydych chi'n eu teipio yn y blwch Chwilio. I wneud hynny, teipiwch **NEU** rhwng y geiriau neu ymadroddion.

Sylwer

Os byddwch yn chwilio am eiriau neu ymadroddion heb nodi **NEU** neu **DIM**, mae FINDit yn rhagdybio eich bod yn chwilio am bob un o'r geiriau neu ymadroddion unigol.

Er enghraifft, i chwilio am eitemau gyda'r gair **Cymreig** neu'r gair **Celtaidd**, teipiwch y canlynol yn y blwch Chwilio:

welsh OR celtic	×	Q	ADVANCED SEARCH

Ffigur 3. Chwilio am eiriau penodol yn defnyddio NEU fel gweithredydd

Sylwer

I ddefnyddio gweithredwyr Boole (A, NEU DIM) o fewn ymadroddion, rhaid i chi ddefnyddio prif lythrennau. Os na wnewch hynny, mae FINDit yn eu dileu ac yn gwneud chwiliad syml am eitemau sy'n cynnwys pob ymadrodd.

2.1.3 Eithrio geiriau neu ymadroddion

Gallwch eithrio eitemau sy'n cynnwys geiriau neu ymadroddion penodol. I wneud hynny, teipiwch **DIM** ac yna'r gair neu ymadrodd i'w eithrio.

Sylwer

Os byddwch yn chwilio am eiriau neu ymadroddion heb nodi NEU neu DIM, bydd FINDit yn rhagdybio eich bod yn chwilio am bob un o'r geiriau neu ymadroddion a nodwyd.

Er enghraifft, i chwilio am eitemau gyda'r gair **Celtaidd** ac eithrio eitemau gyda'r gair **Cymreig**, teipiwch y canlynol yn y blwch chwilio:



Ffigur 4. Eithrio geiriau penodol gan ddefnyddio DIM fel gweithredydd

Sylwer

Os na ddefnyddir cromfachau mewn ymholiad sy'n cynnwys gweithredwyr lluosog, argymhellir eich bod yn defnyddio'r gweithredydd **DIM** olaf i sicrhau bod canlyniadau yn cael eu heithrio o'r ymholiad cyfan. Er enghraifft, seiclo a diogelwch DIM helmed. Os oes angen rhoi'r gweithredydd **DIM** yn rhywle arall, sicrhewch eich bod yn rhoi'r weithred mewn cromfachau. Er enghraifft: **(seiclo DIM diogelwch) NEU helmed**.

2.1.4 Chwilio gyda nodau chwilio

Gallwch gynnwys y nodau chwilio canlynol yn eich chwiliadau:

- **?** rhowch farc cwestiwn i wneud chwiliad nod unigol. Er enghraifft, teipiwch **wom?n** i chwilio am gofnodion sy'n cynnwys y llinynnau **woman**, **women**, ac ati.
- – rhowch seren i wneud chwiliad nodau chwilio lluosog. Er enghraifft, teipiwch **diwyll*** i chwilio am gofnodion sy'n cynnwys llinynnau, megis **diwylliant, diwylliannol** ac ati.

Sylwer

Mae'r system yn anwybyddu nodau chwilio a roddir ar ddechrau geiriau neu ymadroddion chwilio. Er enghraifft, mae'r system yn ymdrin â chwiliad megis **?enyw** fel petaech wedi chwilio am **enyw.**

2.1.5 Grwpio termau mewn ymholiad

Gallwch ddefnyddio cromfachau i grwpio termau i gadarnhau trefn gweithredwyr lluosog a nodir mewn chwiliad.

Enghraifft 1: Mae'r ymholiad canlynol yn chwilio am gofnodion sy'n cynnwys **Shakespeare** a naill ai **trasiedi** neu **soned**:

Shakespeare AND (tragedy OR sonnet)	x A	ADVANCED SEARCH

Ffigur 5. Defnyddio cromfachau i chwilio am ddatganiadau grŵp

Wrth ddefnyddio mwy nag un gweithredydd, argymhellir eich bod yn defnyddio cromfachau i nodi blaenoriaeth. Er enghraifft, os na ddefnyddir cromfachau yn yr ymholiad uchod, bydd FINDit yn defnyddio'r rheolau blaenoriaeth ac yn grwpio'r geiriau **Shakespeare** a **trasiedi** fel a ganlyn:

(Shakespeare AND tragedy) OR sonnet	×	Q	ADVANCED SEARCH

Ffigur 6. Rheolau blaenoriaeth

Sylwer

Wedi i'r canlyniadau gael eu dychwelyd, bydd FINDit yn arddangos yr ymholiad wedi ei newid yn y blwch chwilio er mwyn i chi allu penderfynu a ydych am ddiwygio eich ymholiad a'i ailosod i gael y canlyniadau disgwyliedig.

Enghraifft 2: Mae'r ymholiad canlynol yn chwilio am gofnodion sy'n cynnwys naill ai **Gwyddeleg** neu **Celtaidd** ac nad ydynt yn cynnwys **Gaeleg**:



Ffigur 7. Rheolau blaenoriaeth

Os na ddefnyddir cromfachau yn yr ymholiad uchod, bydd FINDit yn defnyddio'r rheolau blaenoriaeth ac yn grwpio'r geiriau **Celtaidd** a **Gaeleg** fel a ganlyn:

Irish OR (Celtic NOT Gaelic)	×	Q	ADVANCED SEARCH
Ffigur 8. Rheolau blaenoriaeth			

2.1.6 Dewis eich cwmpas chwilio

Mae'r cwmpas chwilio yn diffinio ble y dylai'r system chwilio. Mae cwmpas chwilio diofyn ar waith yn seiliedig ar eich mewngofnodiad, fel arfer yn cyfateb â'ch prif faes astudio neu feini prawf eraill a osodwyd gan y sefydliad. Fodd bynnag, gallwch newid cwmpas eich chwiliad drwy ddewis cwmpas chwilio o'r gwymplen fel a ddangosir yn yr enghraifft ganlynol:



Ffigur 9. Dewis cwmpas chwilio

2.1.7 Defnyddio'r cwmpas chwilio Erthyglau

Mae Erthyglau yn fynegai chwilio canolog sy'n ymgorffori degau o filiynau o gofnodion o arwyddocâd bydeang neu leol, wedi eu cynaeafu o gyhoeddwyr cynradd ac eilaidd a chyfanredwyr. I chwilio o blith yr adnoddau hyn, dewiswch gwmpas chwilio **Erthyglau** neu gwmpas chwilio sy'n ei gynnwys.

Os ydych am dderbyn canlyniadau ar gyfer eitemau Erthyglau nad ydyn nhw'n cynnwys testun llawn, cliciwch ar y blwch **Ymestyn fy Nghanlyniadau**.

stress test		D SEARCH
Filter my results	Including "stress testing". Just search stress test 1,429,117 Results Save query Personalize	
Sort by _{Relevance} ▼ Availability ∧ Peer-revie (1,317,325) Full Text Onl (1,429,089)	REFERENCE ENTRY Stress Test Jessica Kingsley Publishers 2007 Dictionary of Psychological Testing, Assessment and Treatment 44 Any test in which the participant is placed under stress to see how s/he 99 97 Eull test available [7] >	

Ffigur 10. Ymestyn canlyniadau i gynnwys eitemau lle nad oes testun-llawn ar gael **2.2 Cyfyngiadau chwilio**

Bydd y system yn dangos neges ac yn rhoi awgrymiadau pan fydd yr ymholiad wedi mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau canlynol:

- Yr ymholiad yn cynnwys mwy na 30 gweithredydd Boole.
- Yr ymholiad yn cynnwys mwy nag 8 marc cwestiwn.
- Yr ymholiad yn cynnwys mwy nag 8 seren a hyd y gair yn fwy na 2 (megis **abb*** neu **ab*c**).
- Yr ymholiad yn cynnwys mwy na 4 seren a hyd y gair yn llai na 3 (megis ab*).
- Yr ymholiad yn cynnwys dim ond un llythyren a seren (megis a*).

<u>3 Chwiliadau pellach</u>

Mae'r ddalen Chwilio pellach yn eich galluogi i nodi meini prawf ychwanegol, nad ydyn nhw ar gael yn y Chwiliad Sylfaenol. Yn ogystal, mae'n eich galluogi chi i ddewis hidlyddion cyn gwneud yr ymholiad.

Field selector Search tabs Any field contains stress test AND Any field contains Operator Search box + ADD A NEW LINE CLEAR	Material Type All items Language Any language Publication Date Any year Filters	•	
→ Any field <i>contains</i> stress test	₽ SE	ARCH	

Ffigur 11. Nodweddion chwilio pellach

Mae'r cydrannau a'r opsiynau canlynol yn rhan o'r ddalen Chwilio Pellach:

- Chwilio am os y'u darperir, mae tabiau chwilio yn eich galluogi i chwilio o fewn categori penodol o ddeunyddiau (megis deunyddiau y mae eich sefydliad yn berchen arnynt, stoc eich cwrs, neu unrhyw ystorfeydd eraill a ddefnyddir gan y llyfrgell). Os oes tabiau ai peidio, gallwch hefyd gyfyngu eich chwiliad drwy nodi cwmpasau a hidlyddion chwilio.
- **Cwmpas Chwilio** mae cwmpas chwilio yn eich galluogi i leihau canlyniadau chwilio ymhellach drwy nodi is-gategoriau a allai gyfyngu cwmpas chwiliadau i gampws, llyfrgell, neu fynegeion chwilio eraill.
- Ychwanegu Llinell Newydd mae chwiliadau pellach yn eich galluogi i gynnwys hyd at saith llinell o feini prawf, sy'n cynnwys y paramedrau canlynol: gweithredydd, dewisydd maes, math o chwiliad, blwch chwilio.
- **Dewis Maes** ar gyfer pob llinell chwilio, mae'r paramedr hwn yn eich galluogi i gyfyngu eich chwiliad i bob maes chwilio neu faes penodol (megis teitl a phwnc).
- **Math o Chwiliad** ar gyfer pob llinell chwilio, mae'r paramedr hwn yn nodi a yw'r ymadroddion yn eich ymholiad yn cael eu trin fel ymadroddion neu union-ymadroddion. Mae'r gwerthoedd canlynol yn ddilys:
- **yn (yn union)** yn dychwelyd canlyniadau sy'n cynnwys ymadroddion sy'n cyfateb yn union i ymadroddion a nodir yn y chwiliad.
- **yn cynnwys** yn dychwelyd canlyniadau sy'n cynnwys pob gair yn yr ymadrodd, ond gallai'r geiriau fod mewn trefn wahanol ac efallai na fyddant yn agos at ei gilydd.
- Yn dechrau gyda yn dychwelyd canlyniadau sy'n cynnwys geiriau sy'n dechrau gyda'r llinyn a nodir.

Sylwer

Os yw'ch ymholiad yn cynnwys gweithredwyr sy'n gwahanu ymadroddion ac un neu'r ddau ymadrodd yn cynnwys geiriau lluosog, bydd FINDit yn defnyddio cromfachau i grwpio'r geiriau ymhob ymadrodd aml-air. Er enghraifft, bydd FINDit yn newid yr ymholiad **Donald Duck NEU Disney** i **(Donald Duck) NEU Disney** er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a'r ymholiad canlynol: **Donald (Duck NEU Disney)**.

Sylwer

Gan mai dim ond gyda chwiliadau teitl y caniateir chwiliadau sydd wedi eu hangori i'r chwith, bydd y **Dewisydd Maes** yn dangos **Teitl** pan ddewisir **yn dechrau gyda**.

- Gweithredwyr fel gyda chwiliadau sylfaenol, gallwch gynnwys y gweithredwyr canlynol rhwng geiriau ac ymadroddion ymhob llinell chwilio: A, NEU a DIM. Yn ogystal, mae'r gwymplen Gweithredwyr yn eich galluogi i ddewis y gweithredydd a ddefnyddir rhwng llinellu chwilio.
- **Blwch chwilio** ar gyfer pob llinell chwilio, rhowch y testun rydych yn chwilio amdano, a allai gynnwys geiriau, ymadroddion a gweithredwyr (**A**, **NEU** a **DIM**).
- **Hidlyddion** mae hidlyddion yn eich galluogi i gyfyngu eich canlyniadau i fetadata penodol (megis math o ddeunydd neu ystod dyddiadau). Yn y canlyniadau chwilio, gallwch gynnwys ac eithrio ffasedau i hidlo eich canlyniadau ymhellach.

Yn yr enghraifft ganlynol rhaid i gofnodion sy'n cyfateb gynnwys naill ai'r geiriau **Donald** a **Duck** neu'r geiriau **Mickey** a **Mouse** yn y teitl, a rhaid i'r teitl a phwnc y cofnodion beidio â chynnwys yr ymadrodd union **Amusement Parks**. O'r cofnodion sy'n cyfateb, dim ond yr erthyglau Saesneg a ddangosir yn y canlyniadau.

Search for: Everything Libraries Articles US 	SW People		SIMPLE SEARCH
Title ▼ contains ▼ (Donald Duck) OR (Mickey Mouse)	Material Type All items Language	•	
+ ADD A NEW LINE CLEAR	Any language Publication Date Any year	•	
↔ Title contains (Donald Duck) OR (Mickey Mouse) NOT Subject is (exact) A	Amusement Parks 🛛 🔎 SE	EARCH	

Ffigur 12. Enghraifft o chwiliad pellach yn defnyddio Gweithredwyr

<u>4 Pori</u>

Mae chwilio drwy Bori yn eich galluogi i bori drwy ddeunyddiau llyfrgell (deunydd lleol yn unig) i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym. Gallwch bori drwy ddeunydd yn ôl awdur, teitl a phwnc. Yn y canlyniadau, gallwch glicio ar ganlyniad sydd wedi ei danlinellu i weld cofnodion sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hefyd yn bosibl pori yn ôl rhif galw, sy'n dychwelyd rhestr o gofnodion cysylltiedig mewn fformat cryno. Bydd clicio ar deitl yn dangos ei gofnod llawn.

Browse by subject 🔻 glamorgan	Q
	2
Giamorgan Antiquities	3 records
Glamorgan County Cricket Club	1 record
Glamorgan Heritage Coast (Wales)	2 records
Glamorgan, Vale of (Wales) Social life and customs	1 record
Glamorgan, Vale of (Wales) Social life and customs History	1 record
Glamorgan (Wales)	3 records
Glamorgan (Wales) Antiquities	8 records
Glamorgan (Wales) Antiquities Periodicals	1 record
Glamorgan (Wales) Description and travel	1 record
Glamorgan (Wales) Economic conditions	1 record
Glamorgan (Wales) Guidebooks	1 record

Ffigur 13. Enghraifft o ganlyniadau chwilio drwy bori

5 Eich gofod chi yn FINDit

Mae'r adran hon yn cynnwys pynciau'n ymwneud â'ch gofod a'ch gosodiadau personol yn FINDit.

5.1 Pam Mewngofnodi?

Wrth fewngofnodi i FINDit, gallwch wneud y canlynol:

- Gosod eich dewisiadau ar gyfer eich sesiwn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Gallwch osod eich dewisiadau er mwyn iddynt adlewyrchu'r ffordd rydych chi'n chwilio fel arfer, a'u cadw ar gyfer eich sesiynau yn y dyfodol.
- Ychwanegu eitemau rydych wedi dod o hyd iddynt yn barhaol at eich Ffefrynnau. Gallwch gadw eitemau i'w defnyddio yn y dyfodol.
- **Cael mynediad at adnoddau allanol sydd wedi eu trwyddedu.** Mae'r sefydliad yn cynnig adnoddau gwybodaeth trwyddedig i'w ddefnyddwyr. Wedi i chi fewngofnodi, gallwch chwilio ac adalw'r adnoddau ychwanegol hyn.

• **Defnyddio gwasanaethau llyfrgell.** Gallwch fanteisio ar wasanaethau llyfrgell megis gwneud cais am eitemau neu adalw eitemau.

5.2 Pam allgofnodi?

Dylech allgofnodi o FINDit er mwyn i'ch chwiliadau aros yn breifat ac i sicrhau nad oes unrhyw un yn ymyrryd â'ch gosodiadau personol a'ch Ffefrynnau.

5.3 Fy Nghyfrif

Mae Fy Nghyfrif yn eich galluogi i weld cynnwys eich cyfrif a chyflawni gwasanaethau llyfrgell megis adnewyddu llyfr neu ganslo cais. Yn ogystal, mae'n eich galluogi i osod eich gosodiadau FINDit personol. I gael mynediad at Fy Nghyfrif, gosodwch eich cyrchwr dros **Mewngofnodi** ar frig unrhyw ddalen i ddangos dolen **Fy Nghyfrif**.

📟 FINDit	CLASSIC INTERFACE	NEW SEARCH	FIND DATABASE	FIND JOURNAL		ଡ	#	Sign in ENGLISH
Search					Q	ADVANCED SEARCH		

Ffigur 14. Mewngofnodi i gael mynediad at nodweddion Fy Nghyfrif

5.3.1 Gosodiadau personol

Gallwch deilwra rhyngwyneb FINDit er mwyn iddo adlewyrchu'r ffordd rydych chi'n chwilio fel arfer. Er enghraifft, gallwch ddewis yr iaith, mwyafswm nifer y canlyniadau fesul tudalen, eich cyfeiriad e-bost, a'ch rhif ffôn symudol. I osod eich dewisiadau, cliciwch ar tab **Manylion Personol** ar y ddalen **Fy Nghyfrif**.

PDC USW	INDit		CLASSIC INTERFACE	NEW SEARCH	FIND DATABASE	FIND JOURNAL		ତ	#	Morris, Wayne ENGLISH
۹ >	Му Ассоц	unt								
	OVERVIEW LOANS ¹ Library imp Farmer, Lesle Due: 09/08/18 Return to: Tre	LOANS rovement thi y S. J., 8, 23:59 eforest Library	REQUESTS RENEW ALL rough data a & Student Cent	FINE + FEES Fine + fee Current fines ¹ Overdue fi The sagas of Debit 0.15 G	BLOCKS BLOCKS BES Balance is 0. Incelanders : : BEP alon/18	s + MESSAGES M 15. a selection m00/2	PERSONAL I	DETAILS		

Ffigur 15. Mae manylion personol ar gael

Sylwer

I gadw'ch gosodiadau ar gyfer sesiynau'r dyfodol, rhaid i chi fewngofnodi a chadw'ch dewisiadau.

6 Defnyddio Fy Ffefrynnau

Mae'r ddalen **Fy Ffefrynnau**, y ceir mynediad ati drwy glicio'r botwm pin Fy Ffefrynnau ar frig pob tudalen, yn cynnwys y tabiau canlynol:

- **Cofnodion wedi eu cadw** Mae'r tab hwn yn cynnwys eich holl gofnodion sydd wedi eu cadw ac yn eich galluogi i reoli a chadw'ch cofnodion.
- Chwiliadau wedi eu cadw Mae'r tab hwn yn dangos eich holl chwiliadau sydd wedi eu cadw ac yn eich galluogi i reoli'ch chwiliadau. Yn ogystal, mae'n eich galluogi i osod hysbysiadau a ffrydiau RSS, sy'n eich hysbysu pan fo canlyniadau wedi newid yn eich chwiliadau sydd wedi eu cadw.
- Hanes Chwilio Mae'r tab hwn yn dangos eich holl chwiliadau yn ystod y sesiwn gyfredol ac yn eich galluogi i reoli chwiliadau'r sesiwn honno.

6.1 Cadw a rheoli cofnodion

Mae FINDit yn galluogi defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi i gadw cofnodion ar gyfer sesiynau dilynol. Wedi i gofnod gael ei gadw, mae'r ddalen Fy Ffefrynnau > Cofnodion wedi eu Cadw yn galluogi defnyddwyr i wneud y canlynol i'w cofnodion: gweld, dileu a labelu. Mae labelu yn eich galluogi i grwpio a rheoli cofnodion tebyg.

Sylwer

Gydag ymwelwyr, cedwir cofnodion yn y cof lleol ac nid ydynt yn cael eu cadw rhwng sesiynau pori.

6.1.1 Cadw Cofnod

I gadw cofnod:

- Gwnewch chwiliad.
- Cliciwch y botwm pin nesaf at yr eitem rydych chi am ei chadw yn y canlyniadau chwilio.



Mae'r system yn tynnu sylw at newidiadau i'r icon pinio ac yn ychwanegu'r eitem i ddalen Fy Ffefrynnau.

1 Claret for the Cafi Fortier	воок Glazes for the craft potter. Harry Fraser 1937- 3rd ed. London : A. & C. Black 1998 № Available at Treforest Library & Student Centre Main Shelves (738.12 FRA) >		S	MAN WAR	•••
-------------------------------	--	--	---	---------	-----

Sylwer

Rhaid i chi **Fewngofnodi** i gadw eitemau ar gyfer sesiynau'r dyfodol.

6.1.2 Dileu cofnod

I ddileu cofnod o Fy Ffefrynnau:

 Gallwch glicio ar y botwm Dadbinio nesaf at yr eitem yn y canlyniadau chwilio neu yn y tab Fy Ffefrynnau > Cofnodion wedi eu Cadw.



Ffigur 16. Dileu o'r canlynidau chwilio



Ffigur 17. Dileu o'r tab Cofnodion wedi eu Cadw

6.1.3 Labelu cofnod

Mae labeli yn eich galluogi i grwpio cofnodion mewn rhestri preifat er mwyn i chi allu cael mynediad atyn nhw yn ôl yr angen yn y dyfodol. Gallwch roi nifer o labeli i gofnod os ydych am gadw'r cofnod hwnnw mewn mwy nag un rhestr.

I ychwanegu cofnod at restr breifat:

- Cliciwch ar fotwm pin Fy Ffefrynnau sydd ar frig pob tudalen.
- Dewiswch y tab Cofnodion wedi eu Caw (os nad yw wedi ei ddewis eisoes).
- Cliciwch y botwm pensil Ychwanegu Label



Ffigur 18. Ychwanegu label o'ch dewis

Rhowch enw'r Label

6	воок Gene cloning and DNA a T. A. Brown (Terence A.) T. A f 4th ed. Oxford ; Malden, Mas III Available at Glyntaff Libr	nalysis : an introduction Brown (Terence A.) s. : Blackwell Science 2001 ary Main Shelves (572.8645 BRO) >	S	×*	***
	AVAILABLE LABELS				
7	Basket	+	S	*	***
	Add new label genetics	2001			

Ffigur 19. Teipiwch y label

My Favouri	tes 🖉 add labels 🦎 🚥		
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES SEARCH HISTORY		
			Labels
1 Gene	воок Gene cloning and DNA analysis : an introduction T. A. Brown (Terence A.) T. A Brown (Terence A.)	· · ¥ ···	Unlabeled items (90) Basket (1)
T E	4th ed. Oxford ; Malden, Mass. : Blackwell Science 2001 Available at Glyntaff Library Main Shelves (572.8645 BRO)		 ✓ genetics (1) ✓ Clear selection
	genetics		Clear Selection

Ffigur 20. Enghraifft o Label

6.1.4 Dileu label

I ddileu label:

- Cliciwch ar fotwm pin Fy Ffefrynnau sydd ar frig pob tudalen.
- Dewiswch y tab Cofnodion wedi eu Cadw.
- Cliciwch y botwm pensil Ychwanegu Label
- Cliciwch ar y botwm croes Dileu Label.

6	воок Gene cloni T. A. Brown (4th ed. Oxfor	ng and DNA analysis : Terence A.) T. A Brown (Ter rd ; Malden, Mass. : Blackw at Glyntaff Library Main S	an introdu rence A.) rell Science 24 Shelves (572.	001 8645 BRO) >	S	X	***
	genetics	ASSIGNED LABELS					
7	воок	genetics	×		6	X	
	Gene ther Gavin Brook London : Ph	AVAILABLE LABELS Basket	+	42 GEN) >			
	/ ADD LAB	Add new label			0		

Ffigur 21. Dileu Label

6.1.5 Gweld cofnodion grŵp

I weld cofnodion grŵp:

- Cliciwch fotwm pin Fy Ffefrynnau sydd ar frig pob tudalen.
- Dewiswch y tab Cofnodion wedi eu Cadw.
- Yn yr adran Labelu, cliciwch ddolen y label i weld y cofnodion sydd wedi eu haseinio at y label honno.

My Favourit	Ces ADD LABELS				
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES SEARCH HISTORY				
	воок The cloud kingdom Wallis, I. Henry Robinson, Charles London: John Lane, the Bodley Head ; New York: John Lane, the Bodley Head 1908 Ø Full text available ☑ > ✔ ADD LABELS	Ø	X	***	Sort by Date added ▼ Labels Unlabeled items (87) Basket (1)
2	JOURNAL Gene expression patterns (Online) International Society of Developmental Biologists. Amsterdam ; New York : Elsevier Science 2002- Online access > genetics	6	×	•••	genetics (4)

Ffigur 22. Dewis Dolen Label

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos y label sydd wedi ei dewis a'r rhestr eitemau sydd wedi ei haseinio at y label honno.



Ffigur 23. Enghraifft o grwpio cofnodion wedi eu cadw

6.1.6 Gweld cofnod wedi ei gadw

I weld cofnod wedi ei gadw:

- Cliciwch fotwm pin Fy Ffefrynnau sydd ar frig pob tudalen.
- Dewiswch y tab Cofnodion wedi eu Cadw (os nad yw wedi ei ddewis eisoes).
- Yn y rhestr cofnodion wedi eu cadw, cliciwch y cofnod rydych chi am ei arddangos.

My Favourit	es Add Labels 🐺 …			
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES SEARCH HISTORY			
	BOOK The cloud kingdom Wallis, I. Henry Robinson, Charles London: John Lane, the Bodley Head ; New York: John Lane, the Bodley Head 1908 Full text available (2) > ADD LABELS	S	*	 Sort by Date added ▼ Labels Unlabeled items (87) Basket (1)
2	JOURNAL Gene expression patterns (Online) International Society of Developmental Biologists. Amsterdam ; New York : Elsevier Science 2002-	S	*	 genetics (4)

Ffigur 24. Tab Cofnodion wedi eu Cadw

6.1.7 Trefnu rhestr cofnodion wedi eu cadw

Mae'r opsiynau **Trefnu yn ôl** yn galluogi defnyddwyr i roi trefn ar eu rhestr o gofnodion wedi eu cadw er mwyn dod o hyd i gofnodion penodol: **Teitl, Awdur** a **Dyddiad Ychwanegu.**

My Favour	ites ADD LABELS 🕺 …		
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES SEARCH HISTORY		
			Date added
1	DATABASE a-n The Artists Information Company Newcastle : The Artists Information Company.	6 X	 Sort by Title Label: Author Unlabeled items (87) Basket (1) genetics (4)
3	 Online access ☑ > ▲ ADD LABELS ARTICLE Actual and 'optimum' flight speeds: Field data reassessed Pennycuick, CJ Journal Of Experimental Biology, 1997 Sep, Vol.200(17), pp.2355-2361 ◎ PEER REVIEWED Ø Full text available ☑ > ✓ ADD LABELS 	& S	

Ffigur 25. Trefnu Cofnodion wedi eu Cadw yn ôl dyddiad, teitl neu awdur

6.2 Cadw a rheoli chwiliadau

Mae FINDit yn galluogi defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi i gadw chwiliadau rhwng sesiynau a derbyn hysbysiadau e-bost os bydd diweddariad ar y chwiliad sydd wedi ei gadw. Wedi i chwiliad gael ei gadw, mae'r ddalen Fy Ffefrynnau > Chwiliadau wedi eu Cadw yn galluogi defnyddwyr i wneud y canlynol gyda chwiliadau sydd wedi eu cadw: gweld, dileu, creu ffrwd RSS a gosod/clirio hysbysiad.

My Favou	rites 🛪			
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES SEARCH HISTORY			
3 search o	jueries			
1	solar power SCOPE: USW People / Research outputs generated by USW researchers. 02/07/18	2)	۲	-Xa
2	pied flycatchers SCOPE: Everything / Combined Search 02/07/18	2	*	*
3	databases SCOPE: Libraries / Library Catalogue Resource Type: Databases 04/07/17	2	۲	*

Ffigur 26. Cofnodion wedi eu cadw yn Fy Ffefrynnau

6.2.1 Cadw ymholiad o'r rhestr canlyniadau

I gadw ymholiad o'r rhestr canlyniadau:

- Gwnewch chwiliad rydych am ei gadw.
- Cliciwch Cadw Ymholiad, sy'n ymddangos uwchben y canlyniadau chwilio.



Ffigur 27. Ymholiad Cadw Chwiliad

Yn ogystal, bydd gennych gyfle i ofyn am hysbysiad ar gyfer yr ymholiad hwn drwy glicio ar y ddolen hysbysu fydd yn ymddangos uwchben y blwch chwilio.

	The search query was saved to your favorites.	DISMISS			
scandinavian art	× / Everything - 🔎	ADVANCED SEAF	ксн		
Filter my results	PAGE 1 24,821 Results 📌 Save query 🕥 Personalize				
Expand My Results	BOOK Scandinavian art Laurin Carl G This lens : Hannover Emil : Laurin Carl G		9	#	
Sort by Relevance 🔻	New York: The American-Scandinavian Foundation 1922				
Availability A					
Full Text Onl (24,807) Available in th (12) Open Access	2 ARTICLE / multiple sources exist. see all Seeing Science: The Sight/Insight of Scandinavian Art Friedman, Robert Marc Taylor & Francis		S	*	••••
Resource Type Articles (18,865) Reviews (3,625)	Interdisciplinary Science Reviews, 01 March 2010, Vol.35(1), p.5-6 PEER REVIEWED Full text available 🛛 >				

Ffigur 28. GGofyn am hysbysiad am ganlyniadau'n cyfateb a'ch chwiliad yn y dyfodol

6.2.2 Cadw ymholiad o Fy Ffefrynnau

I gadw ymholiad o'r tab Hanes Chwilio:

- Cliciwch fotwm Fy Ffefrynnau ar frig y ddalen.
- Dewiswch y tab Hanes Chwilio i ddangos hanes chwilio eich sesiwn bresennol.
- Cliciwch y botwm pin sy'n ymddangos nesaf at yr ymholiad rydych am ei gadw. Dylai'r cofnod nawr ymddangos dan y tab Chwiliadau wedi eu Cadw hefyd.

6.2.3 Dileu cofnod wedi ei gadw

I ddileu ymholiad:

- Cliciwch fotwm pin Fy Ffefrynnau ar frig y ddalen.
- Dewiswch y tab Chwiliadau wedi eu Cadw i ddangos eich holl chwiliadau wedi eu cadw.
- Cliciwch y botwm dadbinio sy'n ymddangos nesaf at yr ymholiad rydych chi am ei ddileu o'r rhestr.

My Favourit	es 🔻		
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES	SEARCH HISTORY	
4 search que	ries scandinavian art scope: Everything / Combi	ned Search	<i>⇒</i> ⊅ <i>₹</i>

Ffigur 29. Dileu chwiliad wedi ei gadw

6.2.4 Dileu grŵp o ymholiadau wedi eu cadw

I ddileu grŵp o ymholiadau:

- Cliciwch fotwm pin Fy Ffefrynnau ar frig y ddalen.
- Dewiswch y tab Chwiliadau wedi eu Cadw i ddangos eich holl chwiliadau wedi eu cadw.
- Dewiswch flychau ticio yr ymholiadau rydych chi am eu dileu.

My Fav	ourites 📉			
SAVED RECO	IRDS SAVED SEARCHES SEARCH HISTORY			
4 sea	rch queries			
1	scandinavian art scope: Everything / Combined Search 02/07/18	9	¢	*
2	solar power scope: USW People / Research outputs generated by USW researchers. 02/07/18	9	۲	*
3	pied flycatchers SCOPE: Everything / Combined Search 02/07/18	2	۲	×4
4	databases SCOPE: Libraries / Library Catalogue Resource Type: Databases 04/07/17	9	۲	- <u>4</u> /4

Ffigur 30. Dewis chwiliadau wedi eu cadw lluosog i'w dileu

Sylwer

I ddewis pob ymholiad, cliciwch y blwch ticio uwchben y rhestr.

• Cliciwch y botwm Dadbinio sy'n ymddangos uwchben y rhestr.

6.3 Cadw a rheoli hysbysiadau

Mae FINDit yn galluogi defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi i dderbyn hysbysiadau e-bost pan fydd diweddariad i'r ymholiad chwiliad wedi ei gadw. Wedi i hysbysiad gael ei osod, mae'r ddalen Fy Ffefrynnau >

Chwiliadau wedi eu Cadw yn galluogi defnyddwyr i wneud y canlynol gyda hysbysiadau: gosod/clirio hysbysiadau a diweddaru cyfeiriadau e-bost.

6.3.1 Gosod hysbysiad

I osod hysbysiad:

- Cliciwch fotwm pin Fy Ffefrynnau ar frig y ddalen.
- Dewiswch y tab Chwiliadau wedi eu Cadw i ddangos eich holl chwiliadau wedi eu cadw.
- Cliciwch y botwm Gosod Hysbysiad sy'n ymddangos nesaf at yr ymholiad yr hoffech osod hysbysiad ar ei gyfer.

My Favourit	es 🔻		
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES	SEARCH HISTORY	
4 search quei	ries c <mark>andinavian art</mark> cOPE: Everything / Combi 2/07/18	ied Search	<i>₽</i> ₫

Ffigur 31. Botwm Gosod Hysbysiad

Os oes angen, diweddarwch y cyfeiriad e-bost i anfon yr hysbysiad iddo. Os nad oes hysbysiad wedi ei osod eisoes, bydd y cyfeiriad yn dychwelyd i'r cyfeiriad a nodir yng ngosodiadau'r defnyddiwr.

Cliciwch y ddolen Newid cyfeiriad e-bost uwchben y blwch ch	nwilio.
---	---------

	Notifications will be sent to wayne.morris@southwales.ac.uk	Change email addres	s DISM	liss		1
scandina	<i>v</i> ian art	old X ig/ Everything $ull v$	Q	ADVANCED SEARCH		
My Favou	rites 📲 saved searches search history					
4 search o	queries					
1	scandinavian art scopE: Everything / Combined Search 02/07/18			9	۲	-7.4
2	solar power SCOPE: USW People / Research outputs generated by USW researc 02/07/18	chers.		9	*	-14
3	pied flycatchers SCOPE: Everything / Combined Search 02/07/18			2	*	-74
4	databases scopE: Libraries / Library Catalogue <i>Resource Type:</i> Databases 04/07/17			٣	*	-74

Ffigur 32. Newid cyfeiriad e-bost derbyn hysbysiadau

Diwygiwch y cyfeiriad e-bost ac yna cliciwch CADW.



Ffigur 33. Newid cyfeiriad e-bost hysbysiadau

6.3.2 Clirio hysbysiad

I glirio hysbysiad:

- Cliciwch fotwm Fy Ffefrynnau ar frig y ddalen.
- Dewiswch Chwiliadau wedi eu Cadw i ddangos eich holl chwiliadau wedi eu cadw.
- Cliciwch y botwm cloch Clirio Hysbysiad fydd yn ymddangos nesaf at yr ymholiad i glirio'r hysbysiad.

My Favourite	s 🔻		
SAVED RECORDS	SAVED SEARCHES	SEARCH HISTORY	
4 search querie	es candinavian art COPE: Everything / Coml 2/07/18	pined Search	<i>ه</i> (۲)

Ffigur 34. Botwm Clirio Hysbysiadau

6.4 Creu ffrwd RSS

Mae'r ffrwd RSS yn galluogi defnyddwyr FINDit i gael gwybod am newidiadau i ganlyniadau yn eu chwiliadau wedi eu cadw.

I alluogi RSS ar gyfer chwiliad wedi ei gadw:

- Agorwch ddalen Fy Ffefrynnau drwy glicio botwm pin Fy Ffefrynnau ar frig unrhyw ddalen.
- Ar ddalen Fy Ffefrynnau, cliciwch y tab Chwiliadau wedi eu Cadw.



Ffigur 35. Dewis ffrwd RSS ar gyfer eich Chwiliadau wedi eu Cadw

- Cliciwch y botwm RSS ar gyfer y chwiliad wedi ei gadw rydych am ei fonitro.
- Tanysgrifiwch i'r ffrwd os oes gan eich porwr ddarllenydd RSS.

7 Defnyddio canlyniadau cryno

Mae'r ddalen Canlyniadau Cryno yn dangos yr eitemau sy'n cyfateb â'ch ymholiad chwilio. Ar gyfer pob eitem, dangosir y wybodaeth ganlynol:

- Math o Adnodd fformat yr eitem, megis llyfr, erthygl, cyfnodolyn ac ati.
- Teitl cliciwch y teitl i weld rhagor o wybodaeth am yr eitem.
- Awdur, crëwr a dyddiad eitem, crëwr a dyddiad cyhoeddi'r eitem.
- **Argaeledd** cliciwch y ddolen hon i weld rhagor o wybodaeth a gwasanaethau (megis gwneud cais amdani neu weld yr eitem).
- Anfon yn eich galluogi i wneud pethau gyda'r eitem (megis eu hanfon drwy e-bost, creu dyfyniad ac ati).
- **Ffasedau** mae'r ffasedau ar ochr chwith y ddalen yn eich galluogi i hidlo'r canlyniadau yn ôl categorïau (megis math o adnodd a dyddiad) a'u rhoi mewn trefn.



Ffigur 36. Canlyniadau cryno

7.1 Personoleiddio canlyniadau

Mae gosodiadau personol yn galluogi defnyddwyr i roi mwy o flaenoriaeth i gofnodion electronig sy'n cyfateb â'u disgyblaethau dewisol.

aircraft	X Articles - D ADVANCED SEARCH
Personalized results Prefer newer material Biology	PAGE 1 329,206 Results ARTICLE / multiple sources exist. see all Hot, humid air decontamination of a C-130 aircraft contaminated with sources of two acrustalliferous Bacillus
Psychology Edit disciplines	Contaminated with spores of two acrystattierous Bacillus thuringiensis strains, surrogates for Bacillus anthracis Buhr, T. L.; Young, A. A.; Bensman, M.; Minter, Z. A.; Kennihan, N. L.; Johnson, C. A.; Bohmke, M. D. ; Borgers-Klonkowski, E.; Osborn, E. B.; Avila, S. D.; Theys, A. M. G.; Jackson, P. J. Journal of Applied Microbiology, April 2016, Vol.120(4), pp.1074-1084
Expand My Results	PEER REVIEWED 𝔗 Full text available [2] >

Ffigur 37. Canlyniadau wedi eu Personoleiddio

Mae'r adran **Canlyniadau wedi eu personoleiddio** yn rhestru dewisiadau gweithredol ac yn galluogi defnyddwyr i ddileu disgyblaethau, golygu disgyblaethau a rhoi blaenoriaeth i ddeunyddiau mwy newydd.

7.1.1 Gosod dewisiadau canlyniadau wedi eu personoleiddio

Mae blwch deialog **Personoleiddio'r Canlyniadau** yn galluogi defnyddwyr i osod eu dewisiadau o ran eu disgyblaeth, a gedwir yn ystod y sesiwn ar gyfer ymwelwyr a phobl nad ydynt wedi mewngofnodi a rhwng sesiynau ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi.

aircraft	X Articles • O ADVANCED SEARCH
Personalize the results You can help us provide you with better result matches by focusing for Agriculture & Forestry Arts & Humanities History & Archaeology Languages & Literature Philosophy & Religion Business & Economics Engineering Computer Science Materials Science Law Library & Information Science Medicine Diet & Clinical Nutrition Pharmacy, Therapeutics & Pharmacology	the search on your preferred disciplines. Please select up to 5 disciplines. Nursing Psychology Sciences Biology Chemistry Earth Sciences Mathematics Physics Social Sciences Anthropology Education Geography Journalism & Communications Political Sciences Public Health Sociology Statistics Veterinary Medicine
C RESET PERSONALIZATION	CANCEL SAVE CHAN

Ffigur 38. Opsiynau personoleiddio canlyniadaus

I alluogi gosodiadau wedi eu personoleiddio:

• Gwnewch chwiliad o fewn cwmpas chwilio sy'n cynnwys cofnodion Erthyglau.

aircraft	\times / Articles \bullet \wp	ADVANCED SEARCH
Filter my results	PAGE 1 329,206 Results 🖌 Save query 刘 Personalize	
Expand My Results	1 REFERENCE ENTRY	⊠ Ø ≰ …
Sort by Relevance 🔻	Philip's Encyclopedia * or, as in some fighter aircraft, built into the atmosphere. By far ta	he most common <mark>aircraft</mark> is the
Availability 🔨	99 ♂ Full text available 🖾 >	
Peer-review (188,512)		

Ffigur 39. Galluogi Canlyniadau wedi eu Personoleiddio

- Cliciwch y botwm **Personoleiddio** sy'n ymddangos uwchben y rhestr canlyniadau.
- Ym mlwch deialog Personoleiddio'r Canlyniadau, dewiswch hyd at bump disgyblaeth.
- Cliciwch PERSONOLEIDDIO.

I olygu gosodiadau wedi eu personoleiddio yn yr UI newydd:

• Gwnewch chwiliad o fewn cwmpas chwilio sy'n cynnwys cofnodion Erthyglau i ddangos yr adran Canlyniadau wedi eu Personoleiddio.



Ffigur 40. Adran Canlyniadau wedi eu Personoleiddio

- Os ydych am roi blaenoriaeth i gofnodion mwy newydd, ticiwch y blwch ticio Ffafrio deunydd newydd.
- Cliciwch **Golygu** yn yr adran Personoleiddio'r Canlyniadau i agor blwch deialog Personoleiddio'r Canlyniadau.

ersonalize the results ou can help us provide you with better result matches by focusing the search on your preferred disciplines. Please select up to 5 disciplines. Agriculture & Forestry Nursing Arts & Humanities Psychology History & Archaeology Sciences Languages & Literature Biology Philosophy & Religion Chemistry Business & Economics Earth Sciences Engineering Mathematics Computer Science Physics Materials Science Social Sciences Law Anthropology Library & Information Science Education Medicine Geography Diet & Clinical Nutrition Journalism & Communications Pharmacy, Therapeutics & Pharmacology Political Sciences	ersonalize the results u can help us provide you with better result matches by focusing the sear	ch on your preferred disciplines. Please select up to 5 disciplines.	
Public Health Sociology Statistics Veterinary Medicine	 Agriculture & Forestry Arts & Humanities History & Archaeology Languages & Literature Philosophy & Religion Business & Economics Engineering Computer Science ✓ Materials Science Law Library & Information Science Medicine Diet & Clinical Nutrition Pharmacy, Therapeutics & Pharmacology 	Nursing Psychology Sciences Biology Chemistry Earth Sciences Mathematics Physics Social Sciences Anthropology Education Geography Journalism & Communications Political Sciences Public Health Sociology Statistics Veterinary Medicine	

Ffigur 41. Blwch deialog Personoleiddio'r Canlyniadau

- Yn y blwch deialog Personoleiddio'r Canlyniadau, dewiswch hyd at bum disgyblaeth.
- Cliciwch CADW NEWIDIADAU.

7.2 Hidlo canlyniadau

Yn yr adran Mireinio fy nghanlyniadau, a all ymddangos naill ai ar ochr chwith neu ochr dde y ddalen Canlyniadau Cryno, mae rhestr o gategorïau, y cyfeirir atynt fel ffasedau. Drwy gynnwys ac eithrio'r ffasedau hyn (megis dyddiad, awdur, math o gofnod ac ati) gallwch gyfyngu'r canlyniadau chwilio i gael y canlyniadau a ddymunwch.

7.2.1 Cynnwys ac eithrio ffasedau lluosog

Pan fo ffasedau'n cael eu hychwanegu un ar y tro, mae'r system yn rhoi canlyniadau sy'n cyfateb â gwerth y ffased a ddewiswyd. Gallwch ddewis hidlo mwy cymhleth drwy ddewis nifer o ffasedau ac yna'u cymhwyso at y canlyniadau ar yr un pryd. Er enghraifft, os dewiswch Ffased Pwnc **Amaethyddiaeth** a **Botaneg** a ffased math **Llyfr** ac **Arall**, bydd y system yn rhoi canlyniadau sy'n cynnwys pob cofnod sy'n cyfateb â'r meini prawf canlynol:

- Rhaid i'r cofnodion gynnwys pynciau naill ai Amaethyddiaeth neu Botaneg.
- A rhaid i'r cofnodion fod o fath Llyfr neu Arall.

Petaech wedi dewis y ffasedau hyn ar wahân, byddai'n rhaid bod y cofnodion wedi cynnwys pob un o'r ffasedau hyn.

I gynnwys/eithrio ffasedau niferus ar yr un pryd:

Gwnewch chwiliad

	aircraft	× /	Libr	aries	•	Q
Filter my results	PAGE 1 326 Results Save query					
Sort by Relevance Availability Available in the Library (157) Full Text Online (177)	Image: Solution of the second sec			S	*	***
Resource Type A Books (239) Journals (24)	² JOURNAL Aircraft economics (Online) London : Euromoney 1992 ⊘ Online access ☑ >			S	*	
Audio Visual (7) Articles (4) Other (1)	³ WULTIPLE VERSIONS Leveraging information technology for optimal aircraft maintenance, repair and overhaul (MRO) Anant. Sahay					
Airplanes (113) Aeronautics (32)	2 versions of this record exist. See all versions >					

Ffigur 42. Hidlo Fy Nghanlyniadau ar y ddalen Canlyniadau Cryno

- Ar gyfer pob ffased rydych am gynnwys neu eithrio, hofrwch dros y ffased yn Hidlo fy nghanlyniadau ac yna gwnewch un o'r canlynol:
- Cynnwys ffased dewiswch y blwch ticio ar o0chr chwith y ffased. Os ydych am gynnwys ffased sydd eisoes wedi ei eithrio, cliciwch y botwm tic ar ochr dde y ffased.
- Eithrio ffased os ydych eisoes wedi cynnwys ffased, cliciwch y botwm dad-dicio ar ochr dde'r ffased i'w nodi ar gyfer ei eithrio. Os nad ydych wedi nodi ffased i'w gynnwys na'i eithrio, rhaid i chi'n gyntaf ddewis blwch ticio'r ffased a chlicio'r botwm dad-dicio ar ochr dde'r ffased. Os na wnewch hyn, bydd ffased unigol yn cael ei eithrio'n syth.
- Cliciwch **Defnyddio Hidlyddion** i hidlo'ch canlyniadau, Bydd y ffasedau a ddewiswyd yn ymddangos yn yr adran Hidlyddion ar Waith.



Ffigur 43. Defnyddio hidlyddion i ddiwygio canlyniadau chwilio

7.2.2 Ychwanegu ffasedau parhaus

Wrth berfformio chwiliadau tebyg i'w gilydd, efallai y byddwch am gadw'ch hidlyddion ar gyfer chwiliadau pellach yn ystod yr un sesiwn.

I wneud ffased yn un parhaus, hofrwch y cyrchydd uwchben y ffased yn yr adran Hidlyddion Ar Waith ac yna cliciwch ar glo'r ffased.

	aircraft	imes / Libraries $ imes$ $ imes$ $ imes$
Active filters	PAGE 1 82 Results Save query	
Airplanes X	2 versions of this record exist. See all versions >	

Ffigur 44. Ffased Gludol Gweithredol

I ddiffodd ffased, cliciwch ar glo'r ffased i'w ddileu.

8 Chwilio Cyfnodolion

Mae Chwilio Cyfnodolion, a adwaenir hefyd fel y Rhestr A-Z yn y rhyngwyneb clasurol, yn galluogi defnyddwyr i chwilio am gyfnodolion yn ôl teitl neu ISNN neu i bori am gyfnodolion sy'n cychwyn gydag unrhyw rif (0-9), llythyren (A-Z), neu bob nod arall nad yw'n un Lladinaidd (ARALL).

Ceir 20 canlyniad fesul dalen (anffurfweddadwy), ac mae pob canlyniad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol: math o adnodd, braslun bawd, teitl, cyhoeddwr, dyddiad, argaeledd a gweithredoedd (megis Dyfynnu ac E-bostio).

Journal Search	Enter title or ISSN				Q
0-9 A B C	DEFGHIJKLMNOPQRSTUVW	ХҮ	zo	OTHERS	;
PAGE 1 1	,656 Results				
	JOURNAL D & AD annual. London : D & AD British Design & Art Direction 2002 Available at ATRiuM Library Main Shelves (741.60942 DES) and other locations >		6	*	
2	JOURNAL D. H. Lawrence review Cambridge eng. : ProQuest LLC 2012		0	*	
3	JOURNAL D-Lib magazine. Reston, Va. : Corp. for National Research Initiatives ©1995- の Online access 図 >		9	*	•••

Ffigur 45. Canlyniadau Chwilio Cyfnodolion

9 Defnyddio'r dangosiad llawn

Wedi dewis eitem yn y Canlyniadau Cryno, mae'r Dangosiad Llawn yn agor i ddangos gwybodaeth ychwanegol. Gall defnyddwyr naill ai sgrolio i adran benodol neu ddefnyddio'r dolenni ar ochr chwith y ddalen.



Ffigur 46. Dangosiad llawn, gydag adrannau Bwydlen, Anfon a Gweld

Trefnir gwybodaeth yr eitem yn ôl yr adrannau canlynol:

- Anfon mae'r adran hon yn galluogi defnyddwyr i wneud y canlynol gyda'r eitem a ddewisir: e-bostio manylion yr eitem, creu dyfyniad, argraffu, anfon at system rheoli cyfeiriadau (megis EndNote) a chreu dolen barhaol.
- Gweld ar-lein dim ond pan fo eitem ar gael i'w defnyddio ar-lein mae'r adran hon yn ymddangos.
- **Gwneud Cais** mae'r adran hon yn eich galluogi i wneud cais am eitemau ffisegol (meis llyfrau a CDs sain) o'ch sefydliad. Yn dibynnu ar eich sefydliad, efallai y byddwch yn gallu gwneud y cais yn syth o FINDit. Os na, bydd yr adran hon yn eich cysylltu â'ch sefydliad i wneud cais.

	TOP	Get It				
	SEND TO					
	GET IT	REQUEST OPTION	S: Request fr	om a USW Library		
	DETAILS	ATRiuM Library	Jain Shelves	791 430944 KU		
Filter my results	LINKS	Hide Details	ant sherves	51.450544 KEI		
Thermy results	DELATED ITEMS	(1 conv. 1 availabl	e () requests)			
Sort by Relevance -	REDATED TIEMS	(1 copy, 1 available	c, o requests)			
	TAGS	1 - 1 of 1 Records				
Availability 🔺		BARCODE	TYPE	POLICY	DESCRIPTION	STATUS
Available in the Library (139)		1952467	Book	6 Week Loan		Item in place
Full Text Online (32)						
Deserves Tune						
Resource Type		200				
Books (, 38)		Details				
Audio V [*] .dat (16)		Title	Unraveli	ng French cinema : from L'	Atlante to Caché	
Journals (8)		Author	T. Jeffers	on Kline (Thomas Jefferso	on), 1942- >	
		Subjects	Motion p	ictures France >		
Subject 🔨		Description	Cinema a	and/as poetry: L'Atalante's	apples as poems Cinema an	d the real: Renoir's rules <mark>Cinema</mark>
Motion pictures (62)			and/as ci mapping	rime: Breaking the law in 1 : reorienting ourselves thi	ough film Film and/as dream	ocket, and Breathless Cinema and/as h: Truffaut's "roval road" to Adele H
Music, Dance, Drama & Film (1			Cinema a	and/as hypnosis: Jacquot'	s Seventh heaven <mark>Cinema</mark> an	d/as mourning: Anne Fontaine's How I
film (13)			killed my and the F	father <u>Cinema</u> and/as t French cinema	error: Michael Haneke's Caché	Beautiful fragments: discontinuity
Films, French (9)		Publisher	Chichest	er, West Sussex, U.K. ; Mal	den, MA: Wiley-Blackwell	
Motion picture industry (9)		Creation Date	2010			
Show More		Format	226 p. : il	l. ; 23 cm.		
Author/Creater		Language	English	CICPN		
Author/Creator		identifier	9781405	184526		
British Film Institute (7)			ISBN: \$\$	CISBN		
Powrie, Phil (6)			1405184 ISBN • \$\$	523 CISBN		
Godard, Jean-Luc (4)			9781405	184519		
Truffaut, François (4)			ISBN : \$\$	CISBN		
Chion, Michel (3)		Source	1405184: Almo	010		

Ffigur 47. Dangosiad llawn, gydag adrannau Gwneud Cais a Manylion

Sylwer

Efallai y bydd angen i chi fewngofnodi i FINDit neu'ch sefydliad i wneud cais.

- **Manylion** yn dangos manylion ychwanegol (megis y cyhoeddwr a'r dyddiad creu) i helpu'r defnyddiwr i benderfynu a yw am ddewis yr eitem.
- **Eitemau â pherthynas** yn dangos eitemau ar yr un pwnc. Dim ond wrth chwilio yn y cwmpas Llyfrgelloedd y bydd y nodwedd hon yn arddangos.



Ffigur 48. Adran Eitemau â Pherthynas

allgofnodi, i, 10 Anfon, 22,29 Argaeledd, 22 awdur, 8, 16, 22, 26 Blaenoriaeth, 4, 5 Boole, 3, 6 Botwm Chwilio, 1 cadw, 1, 8, 10, 11, 17, 18 Cadw Ymholiad, 17 Canlyniadau Cryno, 22, 26, 28 Cofnodion wedi eu Cadw, 11, 12, 13, 14, 15 Cofnodion wedi eu grwpio, i, 14 coma, 2 cromfachau, 2, 3, 4, 7 Cwmpas chwilio, i, 5, 24 Cwmpas llyfrgelloedd, 30 cyfuno, 2 Cyfyngiadau chwilio, i, 6 Chwiliad pellach, 1, 6 Chwiliadau wedi eu Cadw, 11, 17, 18, 19, 20, 21, 22 Chwilio Cyfnodolion, ii, 28 Dangosiad Llawn, 28 dileu, 11, 13, 18, 19, 23, 27 DIM, 2, 3, 7 dyfeisiadau symudol, 1 dyfynodau, 2 Eitemau â pherthynas, 30, 31 eithrio, 3, 7, 26 EndNote, 29 Erthyglau, i, 5, 24 Fy Nghyfrif, i, 10 Fy Ffefrynnau, i, ii, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 17, 18, 19, 20,21 ffasedau, ii, 7, 22, 26, 27 Gosodiadau personol, 23 gweithredwyr, 2, 3, 4, 6, 7 Gweld ar-lein, 29 Gwneud Cais, 29, 30 gwneud cais, 10, 29, 30 Hanes Chwilio, 11, 18 Hidlo fy nghanlyniadau, 26 hidlyddion, 6, 7, 27 hysbysiad, 18 hysbysiadau, ii, 11, 17, 19, 20 Labeli, 11, 12, 14 marc cwestiwn, 6 Manylion, 10, 30 mewngofnodi, i, 8, 10, 30

NEU, 2, 3, 7 AND, 2, 3, 7 parhaus, ii, 27 Personoleiddio, 23, 24, 25 Pori, i, 7, 8 pwnc, 6, 7, 8 RSS, ii, 11, 17, 21, 22 rhestr breifat, 12 rhif galw, 8 Rhyngwyneb clasurol, 28 seren, 6 sortio, 16, 22 teitl, 6, 7, 8, 16, 22, 28 Ychwanegu label, 12, 13 ymadrodd, i, 2, 3, 7 ymadroddion, i, 2, 3, 6, 7 Ymestyn fy nghanlyniadau, 5 ymwelydd, 11